YSGOL BRYNREFAIL

LLONGYFARCHIADAU LOIS

Yn ddiweddar yr oedd tîm pêl droed genethod dan 15 clwb Pêl Droed Caernarfon yn chwarae mewn twrnamaint yn Skelmersdale yn erbyn rhai o dimau mwyaf Cymru a Lloegr fel, Man City, Burnley, Wigan Athletic. Ar ddiwedd y twrnamaint fe gafodd Lois ei dethol yn chwaraewr mwyaf gwerthfawr y gystadleuaeth. Camp yn wir!

Y mae hyn ar ben ei llwyddiant aruthrol yn cael ei dewis i gynrychioli ei gwlad yn nhîm Cymru dan 16 eleni.

Mewn twrnamaint yn Nulyn chwaraeodd yn erbyn Gogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon a Lloegr.

Geneth Brynrefs – da 'de